

# EFFAITH

Cafodd yr Eisteddfod Ryngwladol gyntaf effaith ryfeddol. Fe'i darlledwyd i'r byd gan y BBC, a chafodd sylw yn y New York Times. Arweiniodd hyn at gynnig Nawdd Brenhinol ar gyfer 1948. Penderfynodd Llangollen y byddai'r Eisteddfod yn aros yno am byth.


Jack Rhys Roberts, Chairman 1948-1970



Festival of Britain 1951

Dan arweiniad ei gadeirydd etholedig, Jack Rhys Roberts, cyn-filwr y Rhyfel Byd Cyntaf ac athro gwyddoniaeth, gyda chymorth ei gyfarwyddwr cerdd W. S. Gwynn Williams, datblygodd yn gyflym yn ŵyl unigryw ym Mhrydain. Cafodd ei chofleidio gan Ŵyl Prydain yn 1951, roedd yn uchafbwynt ar daith frenhinol ar ôl y coroni yn 1953, ac yn lleoliad ar gyfer rhai o ddarllediadau teledu allanol cynharaf y wlad, yn ogystal ag ymweliadau gan Brif Weinidogion.



Royal visit 1953








Ymddangosodd ar dudalen flaen y Radio Times ledled Prydain hyd at 1969. Ymwelodd Dylan Thomas â'r ŵyl yn 1953, wedi'i dalu ugain gini i weithredu fel gohebydd i'r BBC. Cyhoeddwyd nofel hefyd, Love at a Festival, gan Berta Ruck.



Dylan Thomas with his notebook from 1953





Modena choir 1955

Ac yn 1955, roedd un o'r 6,000 o gystadleuwyr yn ŵr ifanc o'r enw Luciano Pavarotti, yn canu gyda'i dad yng nghôr Società Corale "G. Rossini" o Modena.




Harold Wilson mingling on the Maes, 1967

